



Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 2AIL AWST, 2017**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor,  
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd , 26 Gorffennaf 2017)

# **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

## **AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Peter Read (Cadeirydd)

Gareth Williams

John Brynmor Hughes

Jason Wayne Parry (Eilydd)

## **Aelodau Lleol**

Y Cynghorydd Dylan Bullard

Cynghorydd Dafydd Owen

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - LA CABANA

5 - 6

La Cabana, 2 Mitre Place, Pwllheli

I ystyried y cais uchod

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - ZIP WORLD

7 - 9

Zip World Adventure Terminal, Chwarel Penrhyn, Bethesda

I ystyried y cais uchod

## **TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

# Eitem 4

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>2 AWST 2017</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - LA CABANA, 2 MITRE TERRACE, PWLLHELI LL53 5HE</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH RHEOLEIDDIO</b>

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer La Cabana, 2 Mitre Terrace, Pwllheli LL53 5HE, oddi wrth Mr Ayoub Dahech o 27 Stryd Fawr Pwllheli LL53 5RT. Caffi sydd yn darparu bwyd poeth ac oer ar gyfer bwyta ar ac oddi ar y safle yw'r eiddo.

Gwneir y cais mewn perthynas â darparu bwyd poeth fel lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta ar ac oddi ar y r eiddo.

Bwriedir darparu bwyd poeth tan 1.00 y bore nos Sul i nos Iau, a than 02:30 y bore ar nos Wener a nos Sadwrn.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

<b>GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG</b>	<b>TRWYDDED ARFAETHEDIG</b>
<b>Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments</b> - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors	Dydd Llun/Monday 23:00-01:00 Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-01:00 Dydd Mercher/Wednesday 23:00-01:00 Dydd Iau/Thursday 23:00-01:00 Dydd Gwener/Friday 23:00-02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-02:30 Dydd Sul/Sunday 23:00-01:00
<b>Oriau agor a chau i'r Cyhoedd</b>	Dydd Llun/Monday 11:00-01:00 Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:00 Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:00 Dydd Iau/Thursday 11:00-01:00 Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30 Dydd Sul/Sunday 11:00-01:00

## Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Fe welir o'r cais nad oes llawer o wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn rhan M o'r cais mewn perthynas â'r mesurau y bwriedir eu cymryd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ond fe nodir yn benodol -

- Fod bwriad cyflogi goruchwylwyr drysau ar ôl 23.00 yr hwyr ar nos Wener a Sadwrn, a nos Sul cyn gwyliau banc ar gyfnodau prysur.
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Cadw cwrtil yr eiddo yn lan

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## **YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Gwasanaeth tan ac Achub	Llythyr – cadarnhau dim sylwadau ar y cais
Busnes cyfagos	un e bost yn gwrthwynebu
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau a chynnig amodau

### **Gwrthwynebiad - Busnes Cyfagos**

Cafwyd 1 e bost yn gwrthwynebu'r oriau agor hwyr ar sail yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn.

Nodwyd pryder fod yr oriau hwyr yn annog pobl i ymgynnull ar y Stryd yn hwyr yn y nos , gan gynyddu'r posibilrwydd o ddifrod troseddol i adeiladau busnes cyfagos.

### **Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Nodwyd fod trafodaeth wedi bod gyda'r ymgeisydd a bod cytundeb wedi bod i newid y cais i ostwng yr oriau gwerthu lluniaeth hwyr y nos ac oriau agor i 02:00 ar nos Wener a Nos Sadwrn.

Gan fod yr ymgeisydd wedi crybwyll y defnydd o deledu cylch cyfyng (TCC) , cytunwyd hefyd ar amodau penodol mewn perthynas â defnydd TCC. Mae manylion penodol yr amodau TCC sydd wedi eu cytuno i'w gweld y rhan M o'r cais .

## **ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

# Eitem 5

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>2 AWST 2017</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - ZIP WORLD ADVENTURE TERMINAL, CHWAREL Y PENRHYN, BETHESDA LL57 4YG</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH RHEOLEIDDIO</b>

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Zip World Adventure Terminal, Chwarel Y Penrhyn, Bethesda LL57 4YG gan Sean Taylor, Cyfarwyddwr cwmni Zip World Cyf..

Disgrifir yr eiddo fel Canolfan ymwelwyr ar gyfer atyniad Zip World a bwyty.

Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol, cerddoriaeth fyw ac wedi recordio o dan do; a darparu bwyd poeth fel lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta ar yr eiddo.

Bwriedir cyflenwi alcohol a lluniaeth hwyr y nos o 10 yn y bore tan 1 y bore yn ddyddiol a cherddoriaeth fyw ac wedi recordio tan hanner nos bob dydd ar wahân i nos Sul.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

<b>GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG</b>	<b>TRWYDDED ARFAETHEDIG</b>
<b>Oriau Agor / Opening Hours:</b>	Dydd Llun/Monday 06:00-22:00 Dydd Mawrth/Tuesday 06:00-22:00 Dydd Mercher/Wednesday 06:00-22:00 Dydd Iau/Thursday 06:00-22:00 Dydd Gwener/Friday 06:00-22:00 Dydd Sadwrn/Saturday 06:00-22:00 Dydd Sul/Sunday 06:00-22:00
<b>Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Dan Do/Indoors</b>	Dydd Llun/Monday 12:00-15:00 Dydd Llun/Monday 18:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-15:00 Dydd Mawrth/Tuesday 18:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 12:00-15:00 Dydd Mercher/Wednesday 18:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 12:00-15:00 Dydd Iau/Thursday 18:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 12:00-15:00 Dydd Gwener/Friday 18:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-15:00 Dydd Sadwrn/Saturday 18:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 12:00-15:00 Dydd Sul/Sunday 18:00-22:30

<b>Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music</b> - Dan Do/Indoors	Dydd Llun/Monday 06:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 06:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 06:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 06:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 06:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 06:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 06:00-22:30
<b>Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments</b> - Dan Do/Indoors	Dydd Llun/Monday 10:00-01:00 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-01:00 Dydd Mercher/Wednesday 10:00-01:00 Dydd Iau/Thursday 10:00-01:00 Dydd Gwener/Friday 10:00-01:00 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-01:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-01:00
<b>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol</b> - Ar yr Eiddo/On Premises	Dydd Llun/Monday 10:00-01:00 Dydd Mawrth/Tuesday 10:00-01:00 Dydd Mercher/Wednesday 10:00-01:00 Dydd Iau/Thursday 10:00-01:00 Dydd Gwener/Friday 10:00-01:00 Dydd Sadwrn/Saturday 10:00-01:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-01:00

### **Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff ar ofynion y drwydded a phwysigrwydd sicrhau nad oes gwerthiant alcohol i rai o dan 18
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth ar sut i atal gwerthiant a defnydd cyffuriau anghyfreithlon
- Bwriedir gweithredu polisi 'Her 25'
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Arwyddion i ofyn i gwsmeriaid adael yn ddistaw
- Osgoi cael lorïau etc yn cyrraedd i gyflenwi nwyddau ar adegau sy'n debygol o greu niwsans i drigolion cyfagos

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais



## **YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Gwasanaeth tan ac Achub	Llythyr – gwrthwynebiad a sylwadau
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau a chynnig amodau a gytunwyd
Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd	Sylwadau
Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd	Llythyr – dim gwrthwynebiad

### **Gwrthwynebiad - Gwasanaeth Tan ac Achub**

Derbyniwyd llythyr yn nodi gwrthwynebiad i'r cais oherwydd nad yw manylion y cais yn cyfarch yr amcan Trwyddedu o ddiogelu'r cyhoedd.

Ystyrir y rhagofalon tan a gynigir ar yr eiddo i fod yn annigonol ar gyfer y defnydd a fwriedir. Fe roddir adroddiad o'r materion o bryder ar ail dudalen llythyr y Gwasanaeth Tan, sydd yn yr atodiad i'r adroddiad.

### **Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Nodwyd fod trafodaeth wedi bod gyda'r ymgeisydd a bod cytundeb wedi bod i gynnwys amodau penodol ar y drwydded mewn perthynas â defnydd TCC. Mae manylion penodol yr amodau TCC sydd wedi eu cytuno i'w gweld yn yr e bost a dderbyniwyd gan yr Heddlu, a welir yn yr atodiad i'r adroddiad..

### **Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd**

Cadarnhawyd fod trafodaeth wedi bod gyda'r ymgeisydd ; a eglurodd nad oedd bwrid i gynnal digwyddiadau mawr ar yr eiddo. Fe fu i'r ymgeisydd hefyd gydnabod fod sŵn yn gallu cario ymhell oherwydd natur tirwedd chwarel lechi; ac y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw drysau a ffenestri wedi cau yn ystod cyfnodau o gynnal adloniant.

## **ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.